Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw

## Strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF) 2020/21 – 2022/23

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | Prifysgol Abertawe |
| **Arweinydd strategaeth RWIF:** | Yr Athro Marcus Doel, Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol – Ymchwil ac Arloesedd<br>Yr Athro Martin Stringer, Is-ganghellor – Profiad y Myfyrwyr a Chenhadaeth Ddinesig<br>Emma Dunbar – Pennaeth Ymgysylltu, Arloesi, Cyflogadwyedd a Mentergarwch, REIS |
| **E-bost:** | m.a.doel@abertawe.ac.uk<br>m.d.stringer@abertawe.ac.uk<br>e.j.dunbar@abertawe.ac.uk |
| **Ffôn:** | 07860736047 (Emma Dunbar) |

### Adran A: Trosolwg

### 1. Uchelgeisiau strategol

*Darparwch drosolwg o ymagwedd 3 blynedd [a'r tu hwnt os yw cynlluniau tymor hwy ar gael] eich sefydliad at weithgareddau ymchwil ac arloesi i'w cefnogi gan Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru. Efallai yr hoffech chi amlygu meysydd eang rydych chi'n eu targedu, a disgrifio sut y bydd cyllid RWIF yn cyd-fynd â'ch cenhadaeth sefydliadol a strategaethau mewnol.* [uchafswm o 300 o eiriau]

Daw'r strategaeth 3 blynedd hon ar adeg benodol yn ein hanes, wrth inni ddathlu ein canmlwyddiant, ac wrth inni ddod ynghyd fel cymuned mewn ymateb i bandemig Covid-19. Byddwn yn defnyddio'r cyfle hwn i adfyfyrio ar yr hyn y gallem ei gyflawni dros y blynyddoedd nesaf a fydd yn etifeddiaeth ar gyfer ein hail ganrif.

Rydym yn falch o berthyn i Ddinas Abertawe a Dinas-ranbarth Bae Abertawe (SBCR) ehangach ac rydym yn dathlu'r dreftadaeth honno. Byddwn yn cryfhau ein sefyllfa yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe, fel prif brifysgol y rhanbarth, gydag ymchwil ac arloesedd o safon ac ar raddfa fawr i hwyluso cydweithio strategol pwerus rhwng prifysgolion, cyrff cyllido llywodraethol, ein rhwydwaith helaeth o BBaChau, cwmnïoedd mawr a'u cadwyni cyflenwi; a chyflawni buddion economaidd a chymdeithasol gweddnewidiol yng Nghymru , yn y DU a ledled gweddill y byd. Fel prifysgol arloesol ac entrepreneuraidd, rydym yn cefnogi statws Dinas Ddysg UNESCO i ddatblygu ecosystem a diwylliant entrepreneuraidd, datblygu economi'r rhanbarth a thyfu arloesedd cymdeithasol a mentergarwch.

Wrth i ni ddechrau ar ein hail ganrif o fod ar frig y don, mae Prifysgol Abertawe wedi nodi pum piler allweddol ein Prifysgol – ein cenhadaeth ddinesig, profiad myfyrwyr, dysgu ac addysgu, ymchwil a mentergarwch. Mae pob un o'r rhain yn ategu ein hymrwymiad i wneud gwahaniaeth, bod yn gymdeithasol gyfrifol,

ymdrechu i ragori a chynnal meddylfryd byd-eang a fydd yn ein galluogi ni i fod yn gymuned prifysgol gyda chyrhaeddiad ac enw da rhyngwladol.

Mae cyllid yr ICDF ac RWIF yn cael ei werthfawrogi'n fawr ac mae'n cynnig cyfleoedd i ni adeiladu a chryfhau gallu i arloesi mewn ffordd sy'n cau'r blwch cynhyrchiant rhyngom ni a gweddill y DU wrth ennill dyraniad mwy o gyllid yr UKRI a chyllid diwydiannol.

Gan gyd-fynd â'n strategaethau sefydliadol, gyda'r cyllid hwn, byddwn yn canolbwyntio ac yn blaenoriaethu ein gweithgareddau yn y meysydd canlynol dros y 3 blynedd nesaf:

- Sicrhau cyfran uwch o gyllid yr UKRI ac incwm cydweithio â diwydiant
- Canolbwyntio ar berthnasoedd a phrosiectau strategol sy'n cyd-fynd â'n cryfderau ymchwil ac arloesi a chlystyrau sy'n seiliedig ar wybodaeth er mwyn bodloni heriau Cymru, y DU a byd-eang, ehangu gweithgaredd sy'n seiliedig ar fasnach a chynyddu incwm ymchwil gydweithredol.
- Gwella ansawdd rheolaeth, arweinyddiaeth a sgiliau a gallu entrepreneuraidd yn ysgolion Cymru, arloesi cymdeithasol, ac entrepreneuraidd i helpu i ysgogi cynhyrchiant a thwf busnesau newydd yn economi Cymru.
- Manteisio ar biblinell o gyfleoedd masnacheiddio o'n portffolio eiddo deallusol (IP) a denu buddsoddiad mewnol o gwmnïoedd byd-eang.
- Rhoi hwb i ddatblygiad a sgiliau'r gweithlu, gweithgareddau Cyfnewid Gwybodaeth, a chyfleoedd partneriaeth sgiliau Addysg Bellach-Addysg Uwch i ymateb i angen rhanbarthol.
- Gwella ein gweithio cydweithredol ar draws y sector Addysg Uwch, gan greu cyfleoedd arloesol sy'n cefnogi twf masnachol yn y rhanbarth
- Cynyddu graddfa, cwmpas a chyrhaeddiad gweithgareddau ymgysylltu dinesig ac â'r cyhoedd. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid strategol i ymateb i'r angen i adfywio economi a chanol dinas Abertawe.
- Yn ogystal byddwn yn ymateb i anghenion Cymru a'r DU sy'n deillio o bandemig Covid-19, fel a ddengys ein defnydd o gyllid ICDF a'n hastudiaeth achos.

## 2. Grant Adnoddau Ymarferol

*Rhowch naratif am sut mae eich sefydliad chi'n bwriadu defnyddio'r grant adnoddau ymarferol sydd wedi'i gynnwys yn yr RWIF, a'r Gronfa Datblygu Gallu Arloesol (gweler paragraff 14 yng Nghylchlythyr W20/09HE am ganllawiau pellach ar y Grant Adnoddau Ymarferol). Sut y caiff hyn ei ddefnyddio i gefnogi a gwella gallu ac ysgogi a gwella perfformiad wrth gyfnewid gwybodaeth?* [uchafswm o 300 o eiriau]

Rydym yn cydnabod y cyfraniad eang y mae ein Prifysgol yn ei wneud i'r gymdeithas, yr economi a gwerthoedd diwylliannol dyfnach y genedl. Mae llwyddiant ein gweithgareddau ymchwil ac arloesi yn seiliedig ar sylfeini sy'n grymuso, ein harweinyddiaeth, ein cynaliadwyedd, ein galluoedd a'n gallu ymarferol i gefnogi popeth a wnawn.

Bydd grantiau adnoddau ymarferol yr ICDF ac RWIF yn ein helpu i ddod â sefydlogrwydd ac atgyfnerthu ein hadnoddau presennol yn ein Hadran Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi (REIS) er mwyn ein galluogi ni i barhau i ddiwallu anghenion busnes.

Mae REIS yn gydran hanfodol o wasanaethau proffesiynol y Brifysgol, gan ddarparu cymorth ymchwil, ymgysylltu ac arloesi o safon. Mae REIS yn cynnig cymorth hanfodol, gweithredol sylfaenol, gan ychwanegu gwerth ac yn meithrin twf ac ansawdd effaith ddiwylliannol, cymdeithasol ac economaidd Prifysgol Abertawe. Mae ein gwasanaethau hefyd yn galluogi'r gymuned academaidd i gynyddu incwm ymchwil drwy ennill a chyflawni gwobrau ymchwil gwerth uchel ac incwm cydweithredol.

Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith REIS gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol, wrth hwyluso datblygiad ymgysylltu a phartneriaeth bellach, datblygu sgiliau entrepreneuraidd i staff a myfyrwyr, a chefnogi'r broses o gyflymu effaith ein hymchwil o'r radd flaenaf.

Yn ogystal, bydd hwn yn ein galluogi ni i gefnogi ac ehangu darpariaethau Eiddo Deallusol (IP), canolbwyntio ar biblinell o gyfleoedd masnacheiddio a thrwyddedu o'n portffolio eiddo deallusol (IP), a denu buddsoddiad mewnol o gwmnïoedd byd-eang.

Yn ychwanegol, bydd cyllid RWIF i gefnogi "gweithgaredd masnacheiddio/creu incwm" yn ein galluogi ni i ehangu'r tîm a chryfhau a thyfu gallu ymarferol ymhellach i gyflawni ein gweithgareddau newydd, ein perfformiad a'n canlyniadau fel a amlinellir yn ein strategaeth. Bydd hyn yn cynnwys rhoi ffocws ar gofnodi staff prosiectau parhaus drwy grantiau adnoddau ymarferol yr ICDF ac RWIF, gan ddatblygu perthnasoedd a phrosiectau strategol newydd sy'n cyd-fynd â'n cryfderau ymchwil a'n clystyrau sy'n seiliedig ar wybodaeth, cefnogi wrth hwyluso'r broses o ddenu incwm ymchwil gydweithredol drwy ddatblygu ceisiadau, a helpu wrth ymchwilio i weithgareddau partneriaeth cyfnewid gwybodaeth newydd a'u sicrhau.

| **Adran B: Cynnwys penodol** |
|---|
| **3. Gweithgaredd masnacheiddio/creu incwm** |
| *Dyluniwyd yr RWIF i ysgogi a gwobrwyo perfformiad, yn enwedig o ran denu incwm allanol. Rhowch amlinelliad o'r cyfeiriad arfaethedig dros y 3 blynedd nesaf a fydd yn cefnogi'r DPAau a amlinellwyd yn 3.1. Rhowch fanylion ar feysydd allweddol o fuddsoddiad a thwf. Rhowch amlinelliad o ble y caiff yr RWIF ei ddefnyddio i ychwanegu gwerth at weithgareddau presennol, neu sut y bydd yn cefnogi datblygiadau newydd. Mae canllawiau pellach ar yr adran hon ar gael yng Nghylchlythyr W20/09HE. Dylid fframio eich ymateb yn nhermau ffyniant cymdeithasol ac economaidd i Gymru. [uchafswm o 1000 o eiriau]* |

Bydd y cyllid hwn yn cefnogi ein huchelgeisiau fel a amlinellir yn **ein Strategaeth Ymchwil ac Arloesi Sefydliadol 2020** i gynyddu ein cystadleugarwch yn y sector ymchwil ac arloesi. Wrth inni hefyd ymbaratoi ar gyfer dyfodol ar ôl Covid-19 a Brexit, byddwn yn sefydlu partneriaethau sy'n wydn yn wyneb newid gwleidyddol a chymdeithasol yng Nghymru, yn y DU ac yn rhyngwladol.

Yn Abertawe, rydym ni'n ymgysylltu'n rhagweithiol â'n cymuned fusnes, gyda mwy na 40 o gwmnïoedd wedi'u cyd-leoli gyda ni a hanes cryf o weithio gyda sefydliadau mawr a bach (dros 3,000 o fusnesau) sy'n amrywio o gwmnïoedd fel Rolls Royce, Tata Steel, Pfizer a Santander i fusnesau cadwyni cyflewni llai a BBaChau lleol. Mae hyn yn cynnig cyfnewidfa gwybodaeth a gwasanaethau i fusnesau ac academyddion ac ymchwilwyr o'r radd flaenaf y gallant gysylltu â nhw er mwyn cyflawni eu hamcanion yn effeithiol. Er enghraifft, mae ein partneriaeth â Pfizer yn ein galluogi ni i gydweithio ar fentrau â'r nod o wella iechyd ledled Cymru. Yn ychwanegol, rydym ni am wella ein gweithio cydweithredol ymhellach ar draws y sector AU i greu cyfleoedd arloesi sy'n cefnogi twf masnachol, wedi'u hadlewyrchu ar hyn o bryd drwy raglenni ar y cyd megis AgorIP, Astute ac Arweinyddiaeth ION.

Mae ein cryfderau ymchwil a'n clystyrau sy'n seiliedig ar ymchwil yn darparu'r amgylchedd iawn i fentrau newydd a phresennol ffynnu, a denu buddsoddiad mewnol gan gwmnïoedd byd-eang. Rydym ar flaen y gad mewn llawer o feysydd, gan gynnwys y canlynol: gweithgynhyrchu uwch ac arloesedd ym maes ynni glân a'r economi ddigidol; nanoiechyd a dadansoddi data iechyd ar raddfa fawr; gwerthuso'r farchnad waith; defnydd terfysgwyr o'r rhyngrwyd; a gwarchod ein treftadaeth ddiwydiannol. Rydym yn ymchwilio i ffyrdd newydd o asesu a lliniaru'r risgiau o newid yn yr hinsawdd ac rydym yn gweithio i amddiffyn pobl fwyaf diamddiffyn ein cymdeithas a chyfoethogi bywydau pawb.
Mae hyn yn effeithio ar ein diwylliant a'n cymdeithas, yn ogystal â'n hiechyd a'n lles, ein heconomi a'n planed, a lles cenedlaethau'r dyfodol. Rydym wrth y llyw o ran newid polisi yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

**Meysydd Blaenoriaeth ac Ymyriadau:**

**Byddwn yn ehangu ac yn datblygu cydweithio llwyddiannus i feithrin perthnasoedd strategol hir dymor â'n sylfaen o BBaChau yn ogystal â sefydliadau a diwydiant cydwladol a fydd yn darparu buddion. Prif flaenoriaeth ein cenhadaeth strategol**

Enghraifft o hyn fyddai datblygu a gwella ein perthnasoedd strategol diwydiannol ag UKAEA a GlaxoSmithKline (GSK). Byddwn yn darparu cefnogaeth wrth sefydlu perthnasoedd tebyg a strategol arwyddocaol â Rolls Royce a Tata Steel yn ystod y 3 i 5 mlynedd nesaf. Bydd y gronfa hon yn helpu i ddod â nifer fawr o gydweithwyr modelu, gweithgynhyrchu a deunyddiau ynghyd i gynllunio ceisiadau grant mawr i'r UKRI. Mae perthynas â GSK wrthi'n cael ei sefydlu ym maes peirianneg feddygol sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial, gan gysylltu Sefydliad Deallusrwydd Artiffisial arfaethedig y Brifysgol â Chanolfan Ragoriaeth Meddygaeth a Chwaraeon y Coleg Peirianneg.

- **Cyllido mentrau blaenoriaeth strategol a dargedwyd** i ddatblygu ein cryfderau ymchwil ac arloesedd sy'n gysylltiedig â'r Fargen Ddinesig, y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol, Archwiliad Gwyddoniaeth ac Arloesedd a Ffyniant a Rennir.

  **Mae mentrau newydd yn cynnwys:**
  - **RDNM: Creu Model Rhwydwaith Datblygu Rhanbarthol ar gyfer arfer gorau.** Bydd y prosiect peilot hwn yn nodi ac yn cefnogi'r broses o greu 'safon aur' ar gyfer cydweithrediad cymunedol a diwydiannol rhanbarthol, gan ddefnyddio'r model 4theRegion fel sail iddi. Wedi'i lunio ar y cyd â 4theRegion, bydd yn ymateb i alwad Llywodraeth Cymru am ddefnyddio'r ymagwedd hon mewn rhanbarthau eraill.
  - **Ymgysylltu â chysylltiadau ym maes diwydiant ac ymchwilwyr ym maes Peirianneg a dod â nhw ynghyd** i ymchwilio i sawl cais Strength in Places (SIPF) a Chronfa Heriau Strategaeth Ddiwydiannol (ISCF) a'u datblygu, gan gynnwys cryfderau ymchwil megis Dur a Chymdeithas Weithgynhyrchu Cymru.
  - **Datblygiad Canolfan LIFT** (Llaetha, Bwydo Babanod a Chyfieithu) Fe'i sefydlwyd yn 2019 a chan ei bod hi'n hanfodol i gynlluniau Dinas-ranbarth Bae Abertawe, bydd y cyllid hwn yn helpu i ddenu grantiau/incwm a niferoedd myfyrwyr yn y dyfodol (gan gynnwys DPP y gweithlu), gan ei gwneud hi'n bosib ymgysylltu ymhellach â'r cyhoedd, a galluogi cydweithio byd-eang pellach â'r gymuned a phartneriaid ym maes diwydiant.
  - **Unigrwydd yn y gymuned.** Dyma waith cydweithredol rhwng ein Canolfan Heneiddio Arloesol, Amazon, Cartrefi Gofal Hafod, Accenture a Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â phobl sy’n unig, i gynhyrchu, peilota ac asesu effeithiolrwydd defnyddio Alexa a deallusrwydd artiffisial (AI) fel dull o gynorthwyo wrth oresgyn agweddau ar unigrwydd yn y gymuned. Mae'r cynllun peilot hwn hefyd yn ymateb i alwad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â Covid-19.
  - **Datblygu Partneriaethau Strategol i Rwystro Eithafiaeth Dreisgar.** Bydd y gronfa hon yn helpu i sefydlu rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth i alluogi llunwyr polisi ac ymarferwyr rhyngwladol i dreulio amser yn gweithio ochr yn ochr ag ymchwilwyr yng Nghanolfan Ymchwil i Seiberfygythiadau Prifysgol Abertawe (CYTREC).
  - **AgorBa.** Dyma ddatblygu 'lle er mwyn arloesi' a fydd yn integreiddio rhwydweithiau busnes y Brifysgol gyda mannau diriaethol, gan greu parth glanio rhithwir rhanbarthol i fusnesau a fydd yn fan cyswllt cyntaf i brosiectau a chydweithio. Yn ogystal â'r parth rhithwir, byddwn yn defnyddio mannau canol y ddinas arfaethedig y Brifysgol i gynnig canolfan galw heibio i gynyddu pa mor weladwy ydym ni.

  **Mae Mentrau Presennol yn cynnwys:**
  - **CISM (Canolfan Deunyddiau Lled-ddargludo Cyfunol)** Mae CISM yn bartneriaeth ar y cyd ag IQE, Newport Wafer Fab, a SPTS yn ogystal â phartneriaid allweddol eraill: OXIS Energy, Kurt J Lesker, a Zimmer & Peacock. Fe'i sefydlwyd i ddatblygu deunyddiau lled-ddargludo'r genhedlaeth nesaf, prosesau, a dyfeisiau ar gyfer cymwysiadau ym mhopeth o ffonau symudol, cyfathrebu 5G, electroneg bŵer a storio ynni

i'r Rhyngrwyd Pethau a deallusrwydd artiffisial, cludiant (awyrofod, cerbydau) a gofal iechyd. Caiff buddsoddiad ei ddefnyddio i wella gweithgareddau ymgysylltu presennol a pharatoi rhai newydd rhwng Abertawe a phartneriaid diwydiant Clwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd (CS-Connected) yng Nghymru.

- **Ehangu Accelerate.** Prosiect a ariennir gan WEFO yw hwn i gefnogi BBaChau i fynd â chynnyrch i'r farchnad. Bydd y cyllid hefyd yn help i ymchwilio i brosiectau mawr a bach sy'n defnyddio arbenigedd biofeddygol yn ein Hysgol Feddygaeth ar y cyd â'r sector Gwyddorau Bywyd yng Nghymru. Mae hyn yn adeiladu ar lwyddiant prosiectau y Gwyddorau Bywyd megis CALIN, Beacon ac Accelerate i gefnogi BBaChau Cymru mewn prosiectau biofeddygol/gwyddor fiolegol.
- **Datblygu'r Fframwaith Cronfa Wybodaeth –** offeryn ar gyfer ymchwiliadau hawliau dynol ffynhonnell agored. Mae'r prosiect hwn yn deillio o brosiect rhyng-ddisgyblaethol, "OSR4Rights: Using Open-source Research to Transform the Discovery and Documentation of Human Rights Violations." Bydd cyllid yn ein galluogi ni i ddatblygu'r offeryn hwn i fod yn gynnyrch sy'n ddichonadwy yn fasnachol a gwella enw da sector addysg uwch Cymru fel arweinydd ym maes arloesi technolegol.
- **Yswiriant risg seiber: datblygu gwydnwch yng Nghymru.** Mae gan y Sefydliad Cyfraith Morgludiant a Masnach Ryngwladol (IISTL) enw da rhyngwladol am ei waith arbenigol ar yswiriant morgludiant a masnachol, ac am yr hyfforddiant proffesiynol mae'n ei ddarparu i sefydliadau Addysg Uwch, proffesiynol, masnachol, morgludiant, busnes ac yswiriant. Bydd y prosiect hwn yn cefnogi gwaith ymgysylltu agos gyda busnesau a bydd yn defnyddio'r wybodaeth a'r mewnwelediad a enillwyd i gofnodi trosglwyddo gwybodaeth a darparu cyngor a fydd yn fuddiol i fusnesau ledled Cymru.

**Byddwn yn cynyddu lefel a gwerth y trosglwyddiad gwybodaeth, ymgysylltiad â busnesau rhanbarthol a rhyngwladol, ac yn cyfeirio incwm Ymchwil a Datblygu o Ddiwydiant** drwy gyfuniad o'r canlynol:

- Galwad agored flynyddol "cronfa blaenoriaeth strategol diwydiannol sefydliadol" i baratoi a chefnogi academyddion wrth gynyddu cydweithio/incwm ymchwil a chyfleoedd datblygu yn y sector wedi'u halinio i gryfderau ymchwil Abertawe i fodloni Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU. Bydd y gronfa hon yn cefnogi profion cysyniad, secondiadau, partneriaethau newydd a phrosiectau arloesi bach ar y cyd. Drwy ddatblygu a gwella ein portffolio piblinell, byddwn yn gallu cael rhagor o gyllid diwydiannol ac incwm cysylltiedig. Bydd y gronfa yn ategu ac yn gwella rhaglenni presennol ym Mhrifysgol Abertawe megis Galluogwr Grantiau Ymchwil Prifysgol Abertawe (SURGE), Cyfrif Cyflymu Effaith (IAA) yr EPSRC ac AgorIP.
- Mae diwallu anghenion diwydiannol drwy KTP cynyddol, Partneriaethau SMART a gweithgareddau trosglwyddo technoleg yn faes blaenoriaeth. Bydd cyllid yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth a manteision KTP, annog/hwyluso datblygu perthnasoedd strategol tymor hwy gyda diwydiant, a chynyddu'r cyfleoedd piblinell gyda BBaChau. Bydd gwybodaeth am

raglenni cyfnewid neu gyfwerth hefyd yn rhyddhau academyddion i dreulio amser gyda chwmnïau a datblygu mwy o brosiectau ar y cyd.

- Cefnogi rheolaeth ar gyfer y gronfa flaenoriaeth uchod, gweithgaredd datblygu ceisiadau a thwf wrth sefydlu perthnasoedd strategol ac incwm cydweithredol o'r UKRI (a cheisiadau INUK a gweithgareddau Cyfnewid Gwybodaeth yn benodol) drwy ddatblygu ceisiadau a swyddi Partneriaeth Strategol Diwydiannol, a ariennir drwy Grant Adnoddau Ymarferol.

**Byddwn yn ehangu ein datblygiad rhwydwaith ac yn cryfhau ein henw da rhyngwladol:**
Caiff y gronfa hon ei defnyddio i helpu i ychwanegu gwerth a chynyddu ymgysylltiad â busnesau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, cyrff y trydydd sector a'r sector cyhoeddus, y sector gofal iechyd a'r proffesiynau, gan gynnwys partneriaethau strategol neu sefydliadau Addysg Uwch, trosglwyddo gwybodaeth, arloesedd, mentergarwch a'n cymuned o gyn-fyfyrwyr drwy weithgareddau presennol megis Rhwydwaith LINC Abertawe a Dyfarniadau Ymchwil a Datblygu.

- Helpu i ariannu rheolaeth barhaus rhwydwaith LINC Prifysgol Abertawe i helpu i greu cyfleoedd trosglwyddo gwybodaeth rhwng y Brifysgol, myfyrwyr, sefydliadau allanol, BBaChau a'r gymuned (h.y. Prosiectau, KTP a phartneriaethau Smart) a fydd yn arwain at dwf economaidd, cynhyrchiant a ffyniant ar gyfer y rhanbarth a'r tu hwnt.
- Parhau i ddathlu straeon llwyddiant drwy fuddsoddi mewn Dyfarniadau Ymchwil a Datblygu strategol a phroffil uchel a chyfrannu at eu cyflawni.
- Byddwn yn ehangu ein hôl troed a'n henw da rhyngwladol drwy fuddsoddi mewn gwella ein proffil a'n hamlygrwydd rhyngwladol, drwy ymgyrch farchnata a chydweithio rhyngwladol, i helpu i ddringo i fyny dangosyddion diweddaraf QS o flwyddyn i flwyddyn.

**Byddwn yn anelu at gefnogi ein cydweithwyr wrth gymryd rolau arwain ac ymgynghorol ar gyrff cyllido ymchwil ac arloesi sy'n bwysig yn strategol a phaneli adolygu gwaith cymheiriaid allanol, ac wrth ddatblygu dealltwriaeth gynharach a llywio bwriad strategol yr UKRI,** maes rydym ni'n cydnabod y mae angen ei ddatblygu.

**3.1 Darparu manylion ar gyfer DPA strategol eich sefydliad ar gyfer gweithgaredd masnacheiddio a chreu incwm:**

Yn ei dro, bydd ariannu ein hymagwedd strategol a'n gweithgareddau sy'n seiliedig ar fasnach yn helpu i gynyddu cyfleoedd arloesi ac ehangder a manylder cyllid ymchwil sy'n dod i Gymru, gan gynnwys incwm yr UKRI.

Bydd partneriaethau llwyddiannus â diwydiant, gan gynnwys BBaChau a'r sector cyhoeddus/trydydd sector, hefyd yn nodwedd allweddol o ymagwedd Abertawe ac, yn y pen draw, lwyddiant Cymru.

Drwy ein strategaeth 3 blynedd a'r ymagwedd ariannu a ddisgrifiwyd yn yr adran flaenorol, byddwn yn cyflawni'r DPA canlynol:

| |
|---|
| Datblygu ac ehangu cydweithio llwyddiannus i feithrin perthnasoedd strategol hir dymor â BBaChau yn ogystal â sefydliadau a diwydiant amlwladol a fydd yn darparu buddion ac incwm ymchwil cydweithredol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.<br>• Ehangu partneriaethau strategol newydd a chydweithrediadau a ddatblygwyd ar y cyd â diwydiant – 4 partneriaeth newydd ym Mlwyddyn 1, 2 bartneriaeth newydd ym Mlwyddyn 2 a 2 bartneriaeth newydd ym Mlwyddyn 3, sy'n gyfanswm o 8 partneriaeth newydd mewn 3 blynedd. Bydd ein llwyddiant yn amlwg yn nhwf nifer y sefydliadau rydym yn sefydlu partneriaeth â nhw ac, ar ben hynny, yr effaith sydd gennym ar eu busnes ac ar y sector.<br>• Cynyddu cyfanswm lefel incwm ymchwil yr UKRI ac incwm ymchwil/CALl o bartneriaethau ymchwil cydweithredol 10% o flwyddyn i flwyddyn yn seiliedig ar ein perfformiad HEBCI<br>• Cynnydd o 5% mewn incwm o gontractau ymgynghori, cyfleoedd trosi a thrwyddedu yn seiliedig ar berfformiad HEBCI<br>• Ennill 5 grant mawr gan yr UKRI/INUK y flwyddyn (gan gynnwys ISCF, SIPF, CR&D, Smart…)<br>• Ehangu ein Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth a Smart o flwyddyn i flwyddyn, gyda 5 partneriaeth newydd ym Mlwyddyn 1, 9 ym Mlwyddyn 2 ac 14 ym Mlwyddyn 3, sef cyfanswm o 28 dros 3 blynedd.<br>• Datblygu cyrsiau i ranbarthau cymunedol a chynyddu incwm, a nifer y diwrnodau DPP 5% bob blwyddyn yn seiliedig ar ein perfformiad HEBCI.<br><br>**Byddwn yn cefnogi mwy o gydweithwyr i ymgymryd â rolau arwain ac ymgynghori ar ymchwil sy'n bwysig yn strategol a chyrff cyllido arloesol a phaneli adolygu cymheiriaid allanol.**<br>• Cynyddu nifer y cydweithwyr ar baneli 5%<br><br>Nid ydym yn gwybod eto beth fydd effaith lawn pandemig Covid-19 a'r effaith andwyol i'r economi a ddisgwylir ac mae hyn wedi cyflwyno elfen o ansicrwydd i'n rhagolygon a'n gallu i gyflawni mwy o ganlyniadau.<br><br>Fodd bynnag, byddwn yn parhau i ymdrech i wireddu ein hymrwymiad i gyfrannu at ysgogi twf economaidd, cynhyrchiant a ffyniant yn y rhanbarth, yng Nghymru ac yn y DU. Byddwn yn defnyddio adnoddau fel ymateb i bandemig Covid-19, megis helpu wrth ddatblygu cynnyrch newydd a mynd i'r afael ag unigrwydd yn y gymuned wrth sicrhau y bydd yr adnoddau newydd yn parhau i fod yn ddefnyddiol ar ôl y pandemig.<br><br>Mwy nag erioed, bydd sefydliadau megis Abertawe yn chwarae rôl hanfodol yn y frwydr yn erbyn y feirws, gan sicrhau y bydd ein harloesedd yn cyfrannu at y broses o ailadeiladu economi a ffyniant Cymru ac yn y DU, mewn byd ar ôl Covid a Brexit. |
| **3.2 Sut bydd eich ymagwedd strategol yn y maes hwn yn alinio ag <u>Ymchwil ac Arloesi</u>: <u>Gweledigaeth Cymru</u> CCAUC? Dewiswch y colofnau i'w cefnogi:** |
| R Rhagoriaeth<br>R Lleoliad |

R Arloesedd
R Cydweithio

**3.3 Sut mae eich uchelgeisiau strategol ar gyfer gweithgareddau masnacheiddio a chreu incwm yn cefnogi nodau, cerrig milltir ac uchelgeisiau'r Weledigaeth?**

[uchafswm o 250 o eiriau]

Mae ein huchelgais, i gael ein cydnabod o ran **rhagoriaeth** ymchwil a newid bywydau, yn cyd-fynd â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae'n effeithio ar ein diwylliant a'n cymdeithas, yn ogystal â'n hiechyd a'n lles, ein heconomi a'n planed. Rydym wrth y llyw o ran newid polisi yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Rydym ar flaen y gad mewn llawer o feysydd ac fe adlewyrchir hyn gan y prosiectau y byddwn yn eu cefnogi, sy'n cynnwys: datblygiadau ym maes deunyddiau a thechnolegau lled-ddargludo cyfansawdd, gweithgynhyrchu a deunyddiau uwch, storio ynni, digideiddio a dadgarboneiddio, ymchwil fiofeddygol, bwydo babanod ac ymchwil i faeth, gweithio i amddiffyn y bobl fwyaf diamddiffyn yn ein cymdeithas, helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd, yn ogystal ag arwain arloesedd technolegol ar gyfer ymchwiliadau i hawliau dynol, seiberddiogelwch a rhwystro eithafiaeth dreisgar. Byddwn yn ceisio cyflymu'r broses o fasnacheiddio ein hymchwil a'n syniadau sy'n dod o'r gymuned academaidd, gan greu effaith economaidd drwy gymwysiadau'r rhaglen AgorIP.

Bydd ein gwaith yn ein helpu i wella iechyd a lles y boblogaeth, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig, a cheisio gwireddu'r nod o gynyddu ffyniant economaidd a chymdeithasol Cymru.

Mae hyn yn cysylltu â'r piler **lleoliad.** Mae ein hymchwil, ein harloesedd a'n gwaith ymgysylltu eisoes wedi'u cydnabod yn fyd-eang ond rydym ni am achub ar y cyfleoedd cynyddol i fod yn gryfach fyth. Rydym yn weladwy iawn, ac mae gennym gysylltiadau cryf â chymunedau Cymru, ei phobl, ei chlystyrau busnes, ac mae ein gweithgareddau a'n heffaith wedi bod yn fuddiol i sefydliadau ledled Cymru (a gweddill y byd).

**Gan weithio mewn partneriaeth, bydd ein gweithgareddau arloesi ac ymgysylltu yn ein galluogi ni i weddnewid cynhyrchiant Cymru a chefnogi datblygiad sgiliau mewn llawer o sectorau blaenoriaeth, gan gynnwys y proffesiynau iechyd, deunyddiau a gweithgynhyrchu, deallusrwydd artiffisial a digideiddio.** Drwy fuddsoddiadau newydd yng Nghymru, megis Banc Rhoi Llaeth cyntaf y wlad, bydd hyn hefyd yn rhoi cyfle i ddatblygu'r isadeiledd a'r partneriaethau ym maes diwydiant a fydd yn gwella iechyd a lles ein poblogaeth, ynghyd â chysylltedd ein cymunedau.
Mae ein Cymuned Ymchwil yn **gydweithredol**, ag agwedd edrych tuag allan ac sy'n fyd-eang o ran persbectif. Mae gennym berthnasoedd cydweithredol rhyngwladol sy'n rhoi cyrhaeddiad byd-eang i'n hymchwil ac sy'n addas ar gyfer heriau mawr. Rydym yn gweithio gydag academyddion sy'n gweithio mewn sefydliadau eraill ym mhedwar ban byd, partneriaid mewn diwydiant, cymunedau,

y GIG, elusennau, llywodraeth ac asiantaethau aml-wladol i amddiffyn hawliau a lles dinasyddion ledled y byd, gyda rhai o gwmnïoedd mwyaf y byd i ysgogi arloesedd a darganfyddiad, megis sefydliad Iechyd y Byd, y CU, Amnesty International, Unicef, GSK ac UKAEA, i enwi rhai ohonynt.

Rydym yn cefnogi nod CCAUC i gryfhau ymgysylltiad ag UKRI, gan sicrhau y bydd llais gan Gymru ar yr un pryd a chynyddu llwyddiant Abertawe wrth sicrhau cyllid. Byddwn yn dod â phartneriaethau sy'n seiliedig ar fusnes ynghyd mewn meysydd o gryfder cydnabyddedig er mwyn denu cyllid o ffynonellau hynod gystadleuol, megis Cryfder mewn Lleoedd yr UKRI a'r Gronfa Her Strategaeth Ddiwydiannol.

**4. Twf a chefnogaeth sgiliau busnesau newydd**

*Amlinellwch y gefnogaeth rydych chi'n bwriadu ei darparu ar gyfer busnesau newydd, cwmnïoedd deillio a chyrraedd targedau megis Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru. Darparwch wybodaeth am sut y bydd RWIF yn ychwanegu gwerth at weithgareddau presennol, a lle bydd yn eich galluogi chi i fuddsoddi mewn twf pellach. Mae canllawiau pellach ar yr adran hon ar gael yng Nghylchlythyr W20/09HE.*
*Dylid fframio eich ymateb yn nhermau ffyniant cymdeithasol ac economaidd i Gymru.* [uchafswm o 1,000 o eiriau]

**Blaenoriaethau strategol (sy’n cyd-fynd â'r cynllun Strategaeth Ymchwil a Datblygu, Entrepreneuriaeth Myfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe – Ein hymagwedd strategol, strategaethau Dysgu ac Addysgu a Rhyngwladol)**

Rydym yn annog ein staff a'n myfyrwyr i wneud yn fawr o'u syniadau – rydym ar y brig yng Nghymru ac yn y pum uchaf yn y DU am fusnesau sy'n dechrau sy'n goroesi tair blynedd ac rydym yn cyhoeddi mwy gyda diwydiant nag unrhyw brifysgol arall yng Nghymru.

Fel blaenoriaeth strategol ac un o'n pum piler, mae Prifysgol Abertawe wedi bod yn cefnogi twf busnesau newydd ac entrepreneuriaeth am fwy na 10 mlynedd ac mae wedi mabwysiadu Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid y Llywodraeth a Chynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru, a tharged Ymchwil a Datblygu o 2.4% Llywodraeth y DU yn llawn. Mae Abertawe yn cydnabod ei bod yn cynnig fframwaith hynod effeithiol ar gyfer cefnogi a hyrwyddo mentergarwch yn fewnol yn y Brifysgol ac ar y cyd â rhanddeiliaid allanol, o bersbectif Cymru a'r DU.

Mae ein hymagwedd wedi cael ei llywio gan ymdrech ddiflino i wreiddio entrepreneuriaeth ar draws gwerthoedd, polisïau ac arferion Prifysgol Abertawe ac wrth greu amgylchedd entrepreneuraidd gyda'r wybodaeth, y sgiliau a'r ysgogiad i fod yn gwbl entrepreneuraidd ac er mwyn cefnogi busnesau newydd a'u twf.

Rydym ni hefyd yn rhan o ecosystem ehangach o bartneriaid sy'n gweithio gyda grwpiau o randdeiliaid a gydnabyddir gan #CreuSbarc. Rhannu arfer gorau a chyflawnic arbedion maint, drwy gydweithio yn y rhanbarth a'r tu hwnt iddo, cysylltiadau ag entrepreneuriaid, corfforaethau a grwpiau risg cyfalaf Cymru. Rydym yn parhau i dynnu ar wasanaethau Syniadau Mawr Cymru i ategu cynnig y Brifysgol, a chyfeirio myfyrwyr at Fusnes Cymru a darparwyr perthnasol eraill i gefnogi gweddill teithiau ein hentrepreneuriaid.

Rydym yn uchelgeisiol ac rydym ni am wneud gwahaniaeth i fywydau a dyfodol ein staff, ein myfyrwyr a'r gymuned, y gymdeithas a'r economi yn ehangach drwy weithio'n rhagweithiol gyda:

- phartneriaid allweddol fel myfyrwyr
- cydweithwyr mewn ymagwedd amlddisgyblaethol at addysgu ac ymchwil
- partneriaid addysgol mewn prifysgolion, colegau ac ysgolion yn y DU ac yn fyd-eang
- partneriaethau rhanbarthol, rhanddeiliaid o sectorau eraill a grwpiau busnes a chymunedol

Byddwn yn adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol a thrwy'r cyllid hwn, yn ehangu'r cyfleoedd i ymgysylltu, cyfathrebu a chyrchu darpariaethau cefnogi i fwyafu'r potensial am dwf. Byddwn hefyd yn hyrwyddo ein llwyddiannau, fel arweinwyr entrepreneuraidd yn y DU.

**Meysydd blaenoriaeth ac ymyriadau cyllido:**

**Creu amgylchedd entrepreneuraidd a dysgu gwell ar draws y Brifysgol i elwa o botensial entrepreneuraidd sylfaenol yr holl staff a myfyrwyr**

- Buddsoddi yn natblygiad hyrwyddwyr **Arloesi a Mentergarwch y Coleg**, gan ganolbwyntio ar wreiddio datblygiad menter a mentergarwch mewn arferion academaidd a datblygiad Dysgu ac Addysgu drwy ein system sefydliad. Bydd yr hyrwyddwyr hyn yn rhan allweddol o'n darpariaeth strategol, ein haddysg entrepreneuraidd, ein cymorth i fusnesau newydd a'r holl weithgareddau entrepreneuraidd y mae'r Brifysgol am eu datblygu yn y dyfodol, a bod yn gatalydd dros newid.
- **Datblygu sgiliau entrepreneuraidd a hyfforddiant,** drwy wreiddio entrepreneuriaeth yn y cwricwlwm, mewn hyfforddiant staff i gynyddu eu gwybodaeth am entrepreneuriaeth, masnacheiddio, a phecynnau cymorth ar sut i wreiddio Entrepreneuriaeth yn eu meysydd pwnc penodol. Bydd y gronfa yn helpu i ganolbwyntio ar weithio gyda phartneriaid busnes, wrth ddatblygu’r cwricwlwm ac ennyn eu diddordeb, gan gynnwys mynediad at leoliadau ac interniaethau entrepreneuraidd. Yn ei dro, bydd hyn yn gwella safon sgiliau rheolaeth, arweinyddiaeth ac entrepreneuriaeth i helpu i ysgogi twf mewn cynhyrchiant yn economi Cymru.

**Gwella rhagolygon ein holl fyfyrwyr drwy raglenni a chymorth deori mentergarwch myfyrwyr er mwyn cyflawni cyflogadwyedd uwch, cadw niferoedd graddedigion, a thwf busnes newydd yn y rhanbarth rydym yn ei wasanaethu.**

Bydd y gronfa yn cefnogi rhaglenni newydd, megis:

- **Cyflawni rhaglen Dechrau Busnes Graddedigion Fisa Haen 1 Rhyngwladol** sy'n cyd-fynd â'n strategaeth ryngwladol.
- Sefydlu **Cynllun Entrepreneuriaeth Graddedigion** newydd, gan gynnwys cronfa Dechrau Busnes i fyfyrwyr a graddedigion, gan gyfoethogi'r buddsoddiad presennol a'r cyfleoedd cyllido i fyfyrwyr, drwy raglenni megis AgorIP a Phrifysgolion Santander, yn ogystal â thrwy ein hecosystem ehangach o randdeiliaid a darparwyr cymorth allanol.
- Datblygu "rhaglen fentora o ddechrau hyd at CEO" (sy'n cael ei pheilota ar hyn o bryd) i gefnogi entrepreneuriaeth ymhlith myfyrwyr presennol gyda chymorth ein cymuned gynyddol o gyn-fyfyrwyr.
- Buddsoddi mewn rhaglen **Gyflymu gyda grwpiau datblygu rhanbarthol, a pharthau entrepreneuriaeth** (megis Castell-nedd Port Talbot) i alluogi busnesau newydd myfyrwyr a graddedigion i aros yn y rhanbarth.
- **Adeiladu a chynnal perthnasoedd â phartneriaid a chydweithwyr allweddol ym maes ymchwil, trosglwyddo gwybodaeth a gweithgareddau eraill sy'n wynebu'n allanol,** drwy ychwanegu gwerth at ddarpariaeth bresennol a mynediad i'r tîm entrepreneuriaeth, ac mewn rhwydweithiau mewnol ac allanol megis 'Prifysgol Abertawe: LINC'.

Bydd RWIF hefyd yn galluogi datblygiad a chymorth pellach i fentrau a ddatblygwyd drwy grant Entrepreneuriaeth Ieuenctid presennol Llywodraeth Cymru, megis:

- **Annog mwy o gyfranogiad, amrywiaeth a chyfleoedd dysgu arbrofol,** drwy gystadlaethau, cynlluniau, sesiynau dwys, arddangosfeydd dechrau o'r newydd a digwyddiadau rhwydweithio i alluogi entrepreneuriaid i archwilio, profi ac arddangos eu syniadau.
- **Gwella fframwaith presennol gwasanaethau a hyfforddiant ymgynghorol,** er mwyn helpu i gefnogi'r pontio o fod yn fyfyriwr i fod yn fusnes newydd sbon. Bydd hyn yn cynnwys mynediad i ddarpariaethaumewnol presennol a phrosiectau strategol, megis AgorIP, yn ogystal â rhaglenni allanol megis ICURe. Mae hyn eisoes wedi'i brofi i fod yn ffordd effeithiol i rai busnesau newydd sy'n seiliedig ar arloesedd.

Bydd y Brifysgol hefyd yn anelu at ddatblygu model ariannol cynaliadwy tymor hwy i gefnogi'r broses o ddatblygu sgiliau entrepreneuraidd i fyfyrwyr a gwreiddio diwylliant entrepreneuraidd a strwythur rheoli a fydd yn cael ei gefnogi gan gyllid o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys buddsoddiad gan randdeiliaid allanol a'n cymuned gynyddol o gyn-fyfyrwyr.

Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â chyflogwyr a cholegau addysg bellach drwy Bartneriaeth Sgiliau Prifysgol Coleg (CUSP) i gyflwyno rhaglen arloesol o weithgareddau sy'n diwallu anghenion am sgiliau lefel uwch gyda ffocws

| |
|---|
| penodol ar lenwi'r diffyg sgiliau mewn sectorau blaenoriaeth sy'n dibynnu ar STEMM.<br><br>**Twf mewn Eiddo Deallusol (IP), patentau, deori cwmnïoedd newydd sbon, a buddsoddiad gwerth uchel mewn cwmnïoedd deillio a thwf mewn incwm o ymgynghoriaeth, trwyddedu ac incwm cyfatebol**<br>Mae gweithgareddau ymgysylltu diwydiannol a masnachol bellach yn hanfodol i fusnes ein Prifysgol. O flwyddyn i flwyddyn, mae Prifysgol Abertawe wedi bod yn dyst i dwf cynyddol yn y maes hwn, yn bennaf gyda'r cynnydd yn y prosiect Trosglwyddo Technoleg Strategol a ariennir gan WEFO AgorIP, sef buddsoddiad gan gronfa Arloesi Prifysgol Abertawe (a reolir drwy Swansea Innovations Ltd., sef is-gwmni dan berchnogaeth lawn) a nifer gynyddol o brosiectau strategol sy'n cynnwys ymgysylltiad diwydiannol.<br><br>Bydd RWIF yn gweithio ochr yn ochr â darpariaeth a chyfleoedd buddsoddi presennol drwy raglen AgorIP Cymru gyfan, buddsoddwyr a Swansea Innovations Ltd er mwyn cefnogi twf mewn cyfleoedd masnacheiddio o'n portffolio Eiddo Deallusol, ein gwybodaeth ymarferol a'n hymchwil. Byddwn yn ceisio cefnogi a helpu proses fasnacheiddo syniadau ein hymchwilwyr gyrfa gynnar a'n cymuned academaidd, ymchwilio i gyfleoedd yn y farchnad a chreu effaith economaidd drwy gyflwyno ceisiadau i raglenni megis Arloesi i Fasnacheiddio Ymchwil Prifysgolion (ICURe).<br><br>Un o'r pethau prin sy'n gadarnhaol am bandemig Covid-19 yw ein gallu i baratoi ein hadnoddau masnacheiddio i symud cynnyrch perthnasol yn gyflym i'r farchnad. Mae hyn wedi arwain at bortffolio o offer diogelu a systemau profi sy'n dod i'r farchnad i ddiwallu'r angen brys. Byddwn yn parhau i addasu a diwallu anghenion tirlun sy'n newid yn gyflym. |
| **4.1 Rhowch fanylion am DPA strategol eich sefydliad ar gyfer twf busnesau newydd a chymorth sgiliau** |
| Yr hyn sy'n sail i'r ymdrech i greu prifysgol sy'n fwy entrepreneuraidd yw'r angen i ddeall effaith y newidiadau a wnaed.<br><br>Bydd cyllid RWIF yn cefnogi ac yn ychwanegu gwerth at ein hymrwymiad presennol i Raglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru dros 3 blynedd, i:<br><br>Ennyn diddordeb myfyrwyr (Cyflwyniad, cynyddu ymwybyddiaeth a dyhead entrepreneuriaeth a hyrwyddo gwerth entrepreneuriaeth i greu cyfleoedd a datblygu pobl ifanc): 2019 (4,076) 2020 (4,076) a 2021 (4,125)<br><br>*Grymuso myfyrwyr* (Arfogi pobl ifanc â'r cyfleoedd dysgu entrepreneuraidd a datblygu eu sgiliau, eu hagweddau a'u gwybodaeth drwy brofiadau ymarferol): 2019 (407) 2020 (407) a 2021 (413)<br><br>*Arfogi myfyrwyr* (Cefnogi pobl ifanc i greu a thyfu busnesau a'u cefnogi ar y daith i ddechrau busnes i'r rhai hynny sy'n dymuno gwneud hynny) |

- i ddilysu a phrofi syniadau: 2019 (180) 2020 (220) a 2021 (260)
- o'r cam meithrin i'r cam dechrau arni: 2019 (100) 2020 (120) a 2021 (140)
- i ddechrau eu busnes: 2019 (28). 2019 (100) 2020 (34) a 2021 (140)

Yn ogystal, bydd y cyllid hwn yn cefnogi ein huchelgeisiau strategol (a amlinellwyd yng nghynlluniau Ymchwil a Datblygu a Strategaeth Entrepreneuriaeth Myfyrwyr) i wella safon y rheolaeth, yr arweinyddiaeth a'r sgiliau entrepreneuraidd i helpu i ysgogi twf mewn cynhyrchiant yn economi Cymru, drwy:

**Greu amgylchedd entrepreneuraidd a dysgu gwell ar draws y Brifysgol i elwa ar botensial entrepreneuraidd yr holl staff a myfyrwyr**

- Hyrwyddwr Arloesi a Mentergarwch ar gyfer pob coleg/ysgol
- Darparu rhaglen datblygu a hyfforddi Sgiliau Entrepreneuraidd i 80 o staff bob blwyddyn

**Gwella rhagolygon ein holl fyfyrwyr drwy raglenni entrepreneuriaeth myfyrwyr newydd a chymorth deori.**

- Cynyddu nifer y busnesau newydd myfyrwyr a graddedigion o leiaf 12% y flwyddyn yn seiliedig ar ein perfformiad HEBCI
- 10 busnes newydd i raddedigion rhyngwladol Fisa Haen 1 y flwyddyn
- Datblygu rhaglen fentora "O ddechrau hyd at CEO" newydd
- Sefydlu Cynllun Entrepreneuriaeth Graddedigion newydd 2020/21
- Rhaglen Gyflymu newydd gyda grwpiau datblygu rhanbarthol a pharthau entrepreneuriaeth yn ystod 2020/21

Bydd ein llwyddiant hefyd yn amlwg yn y ffyrdd rydym yn gwreiddio entrepreneuriaeth yn ein rhaglenni gradd, ac yn y cyfleoedd allgyrsiol rydym yn eu cynnig i'n myfyrwyr i gynyddu nifer y busnesau newydd a'r busnesau sy'n ehangu sy'n cael eu creu.

**Ehangu Eiddo Deallusol, patentau, deori cwmnïoedd newydd a buddsoddiadau gwerth uchel mewn cwmnïoedd deillio**

- Cynnydd nifer y cwmnïoedd deillio gwerth uchel/blwyddyn 17% bob blwyddyn yn seiliedig ar ein perfformiad HEBCI
- Cynyddu cyfleoedd a cheisiadau i'r rhaglen Arloesi i Fasnacheiddio Ymchwil Prifysgolion (ICURe), os yw ar gael

Mae pandemig Covid-19 wedi gwneud yr adeg hon yn un sy'n arbennig o anodd i fusnesau, gyda llawer ohonynt heb fod wedi gallu gweithredu neu waeth, yn diflannu, a gallai hyn effeithio ar ein ffigurau busnesau newydd a'n busnesau deillio.

Yn ôl adroddiad gan Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ganlyniadau arolwg Effaith y Coronafeirws ar Fusnesau Ton 4 (COVID-19) (BICS) ar gyfer y cyfnod 20 Ebrill i 3 Mai 2020:

- gwnaeth 79% o fusnesau adrodd eu bod yn parhau i fasnachu, er gwnaeth 20% ohonynt adrodd eu bod wedi cau neu wedi rhoi'r gorau i fasnachu dros dro

- O'r busnesau sy'n parhau i fasnachu, gwnaeth 61% o fusnesau adrodd gostyngiad mewn trosiant y tu allan i'r ystod arferol yn Lloegr, o'i gymharu â 66% yng Nghymru
- Nid oedd 44% o'r busnesau a wnaeth ymateb roi'r gorau i fasnachu yn barhaol, gan adrodd y byddai eu cronfeydd arian wrth gefn yn para am lai na 6 mis

Byddwn yn defnyddio hyn fel cyfle i gefnogi'r busnesau hyn wrth addasu i amgylcheddau newidiol, bod yn fwy gwydn ac ymatebol, fel a ddangosir yn ein datblygiadau diweddar mewn offer diogelu a systemau profi sy'n cael eu cyflwyno i'r farchnad.

Mwy nag erioed, bydd y cyllid hwn yn ein helpu ni i gefnogi'r busnesau newydd sbon hyn yn ogystal â sicrhau y bydd ein busnesau mwy sefydledig yn goroesi, yn parhau i weithredu a ffynnu.

**4.2 Sut bydd eich ymagwedd strategol yn y maes hwn yn cyd-fynd ag Ymchwil ac Arloesi: Gweledigaeth Cymru CCAUC? Dewiswch y pileri i'w cefnogi:**

R Rhagoriaeth
R Lleoliad
R Arloesedd
R Cydweithio

**4.3 Sut mae eich amcanion strategol ar gyfer twf busnesau newydd a chefnogi sgiliau yn cefnogi nodau, cerrig milltir ac uchelgeisiau'r Weledigaeth?**

[uchafswm o 250 o eiriau]

Yn Abertawe, mae'r twf mewn cyfleoedd masnacheiddio a deillio yn ganlyniad ansawdd rhagorol **ein portffolio Eiddo Deallusol, ein gwybodaeth ymarferol a'n harbenigedd ymchwil rhyngwladol.** Drwy brosiect AgorIP, rydym ni wedi canolbwyntio ar feysydd y gwyddorau bywyd a gofal iechyd ac felly mae'r Brifysgol yn ystyried y **meysydd hyn i fod yn bwysig iawn** o safbwynt masnachol sy'n cefnogi uchelgais CCAUC i fod yn arweinwyr blaenllaw, a chael ei gydnabod i fod yn flaengar yn rhyngwladol, yn y maes hwn. Yn ogystal, mae gan AgorIP gylch gorchwyl sy'n dod â'r holl sectorau ynghyd ac sydd â chynlluniau, drwy "AgorIP y Dwyrain", i fod **ledled Cymru gyfan** a chyda **chylch gorchwyl rhyngwladol**, gan alluogi cyllid ac adnoddau i fasnacheiddio Eiddo Deallusol ledled y byd sy'n deillio o Gymru.

Byddwn yn parhau i weithio mewn **partneriaeth â chyflogwyr a cholegau addysg bellach** drwy'r Bartneriaeth Sgiliau Prifysgol Coleg (CUSP) i ddarparu **rhaglen arloesol** o weithgareddau sy'n diwallu'r angen am sgiliau lefel uwch gyda ffocws penodol ar ddatrys y diffyg sgiliau mewn sectorau blaenoriaeth **yn y**

**rhanbarth** sy'n dibynnu ar STEMM, rheolaeth a phynciau sy'n gysylltiedig ag iechyd.

Byddwn yn parhau i weithio gyda pharthau Entrepreneuriaeth **rhanbarthol**, ein cyn-fyfyrwyr a **chlystyrau/rhwydweithiau** busnes megis 4theRegion er mwyn cefnogi ac annog cwmnïoedd newydd i fuddsoddi ac **aros yn y rhanbarth.** Drwy Swansea Innovations Limited, rydym ni hefyd wedi sefydlu **cysylltiadau cryf** â'r gymuned fuddsoddi yng Nghymru a'r tu hwnt sydd wedi arwain at bortffolio cryf o gwmnïoedd a gweithgareddau ymgynghori.

Fel blaenoriaeth strategol ac un o'n pum piler, mae Prifysgol Abertawe yn sylweddoli ei bod hi'n hynod effeithiol ac yn **fframwaith arloesol** ar gyfer cefnogi a hyrwyddo entrepreneuriaeth yn fewnol yn y Brifysgol ac ar y cyd â rhanddeiliaid allanol, o safbwynt Cymru a'r DU.

Rydym yn cydnabod ein bod ni, ym Mhrifysgol Abertawe, hefyd yn **rhan o ecosystem ehangach o bartneriaid**, gan weithio gyda'r holl grwpiau o randdeiliaid sy'n cael eu cydnabod gan #CreuSbarc. Rydym ni'n rhannu arfer gorau ac yn cyflawni arbedion maint, drwy gydweithio yn y rhanbarth a'r tu hwnt iddo, a chan gysylltu ein hentrepreneuriaid a'n hymchwilwyr o Gymru â chorfforaethau, buddsoddwyr, sefydliadau eraill, llywodraeth a grwpiau cyfalaf risg. Rydym yn parhau i fanteisio ar wasanaethau Syniadau Mawr Cymru, Busnes Cymru, Banc Datblygu Cymru a Santander, ymysg eraill, i ychwanegu at ac atgyfnerthu cynnig y Brifysgol a thaith ein hentrepreneuriaid yn y dyfodol.

## 5. Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd

*Rhowch amlinelliad o sut y bydd RWIF yn cefnogi gweithgaredd parhaus neu newydd ar draws eich cymunedau. Mae cenhadaeth ddinesig sy'n seiliedig ar leoliad yn eang, gan gynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n cynnwys cefnogaeth yn y gymuned i ddiwallu anghenion sgiliau diwydiant, partneriaethau addysg uwch-addysg bellach mewn sgiliau, arloesi ac ymgysylltu, ymgysylltu â'r cyhoedd drwy ymchwil a goresgyn heriau cymdeithasol. Byddai cefnogaeth i'r gymuned ar safleoedd y Brifysgol ar gyfer, e.e., digwyddiadau, darlithoedd etc. hefyd yn golygu cefnogi cenhadaeth ddinesig. Mae arweiniad pellach ar yr adran hon ar gael yng Nghylchlythyr W20/09HE.*
*Dylid fframio eich ymateb yn nhermau ffyniant cymdeithasol ac economaidd i Gymru. [uchafswm o 1000 o eiriau]*

**Blaenoriaethau strategol (sy'n cyd-fynd â Chynllun Strategol Ymchwil a Datblygu a Strategaeth Cenhadaeth Ddinesig)**

Mae ein blaenoriaethau strategol fel a ganlyn:
- Arwain lleoliad
- Cynyddu graddfa, cwmpas a chyrhaeddiad ein gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd
- Cefnogi adfywio economaidd drwy ddatblygu arloesi a sgiliau
- Cyfrannu at godi safonau mewn ysgolion

- Datblygu dinasyddiaeth weithgar
- Gweithredu fel injan sy'n tanio mentergarwch ac arloesedd cymdeithasol

Y prif feysydd cenhadaeth ddinesig a fyddai'n cael budd o rownd gyntaf y buddsoddiad drwy gyllid CCAUC yw:

- Datblygu cydweithio Busnes/AU/AB pellach,
- “Allgymorth Ar-lein” fel ymateb i Covid-19 ac ar gyfer hyrwyddo gweithgareddau Ymgysylltu â’r Cyhoedd a Chenhadaeth Ddinesig,
- Ymgysylltu â Busnes ar gyfer Prentisiaethau Gradd a
- datblygu Canolfan Treftadaeth a Chadwraeth gyda chymuned ddifreintiedig ac ynddi .

Yn y blynyddoedd nesaf, byddwn yn ceisio ymateb i'r angen am adfywio economaidd drwy gydweithio â chynlluniau Dinas a Sir Abertawe ar gyfer canol y ddinas, gan ymchwilio i'r potensial am le yng nghanol y ddinas (pan fydd hynny ar gael), y disgwylir y bydd o 2021-22 ymlaen. Ar hyn o bryd, rydym yn trafod partneriaeth menter ar y cyd strategol bosib gyda chorfforaeth fawr sy'n ymwneud â lle i gysylltu, arloesi a thyfu.

Byddai'r safle yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd hyblyg am amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys (er nad yn gyfyngedig i) ymgysylltu â'r cyhoedd am ein hymchwil, gweithgareddau allgymorth, darpariaeth galw heibio i gael cyngor arbenigol a gwasanaethau cyfreithiol pro bono, lle deori ar gyfer mentrau myfyrwyr ac annog graddedigion i leoli eu mentrau sy’n datblygu yng Nghymru. Fe'i hystyrir y bydd cyfrannu at yr ailddatblygu yng nghanol y ddinas drwy'r buddsoddiad hwn ar yr adeg gywir yn cefnogi ffyniant cymdeithasol ac economaidd Abertawe a Chymru.

Fel aelod o Rwydwaith newydd Prifysgolion Cymru dan arweiniad y Rhwydwaith Cenhadaeth Ddinesig, byddwn yn cefnogi ymagwedd gyson at yr agenda hon ledled Cymru, gan sicrhau y caiff arfer gorau ei rannu.

**"Allgymorth Ar-lein” yr ICDF** (Cynyddu graddfa, cwmpas a chyrhaeddiad ein gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd a chyfrannu at godi safonau mewn ysgolion).

Mae Prifysgol Abertawe eisoes yn cynnig darpariaeth allgymorth ar-lein eang i athrawon a myfyrwyr ysgol drwy Hwb Llywodraeth Cymru. Caiff cyllid yr ICDF ei ddefnyddio i baratoi gweithgareddau allgymorth NEWYDD drwy gynnig cymorth ar gyfer gwaith allgymorth i greu "Allgymorth Ar-lein" sy'n bodloni un o'r gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd/cenhadaeth ddinesig canlynol a fydd yn gynaliadwy ac yn ddefnyddiol ar ôl y pandemig. Mae'r ymateb i bandemig Covid-19 yn cynnwys datblygu porth/tudalen we ganolog gyda dolenni i allgymorth, gan wneud hyn yn fwy hygyrch i ddarpar fyfyrwyr a'r gymuned, er mwyn cefnogi adfywiad cymdeithasol ac economaidd.

- Cefnogaeth i rieni ar reoli addysgu a chymorth addysgol yn y cartref yn effeithiol
- Gweithgareddau a rhaglenni allgymorth i blant oedran ysgol (i'w hychwanegu at y rhai hynny sydd eisoes ar gael drwy Hwb)
- Mynediad at Wybodaeth, Cyngor ac Arweiniad Diduedd (ar gyfer darpar fyfyrwyr Addysg Uwch – gan gynnwys myfyrwyr aeddfed o bosib gan y gallant fod wedi colli swydd o ganlyniad i'r pandemig)
- Gweithgareddau ymgysylltu/datblygu i ddarpar fyfyrwyr Addysg Uwch – gan gynnwys myfyrwyr aeddfed o bosib gan y gallant fod wedi colli swydd o ganlyniad i'r pandemig)
- Cyfleoedd i ddatblygu cyfalaf diwylliannol, gan gynnwys allgymorth ar greadigrwydd i oedolion
- Lles a chwaraeon
- Iaith Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill - darpariaeth ryngweithiol am ddim i Geiswyr Lloches a Ffoaduriaid
- Paratoi Sgiliau ar gyfer Addysg Uwch
- Rhaglenni pontio i fyfyrwyr sydd ar fin mynd i Brifysgol Abertawe

**Cydweithio Busnes/Addysg Uwch/Addysg Bellach** yr ICDF (Cefnogi adfywio economaidd drwy arloesi a datblygu sgiliau)

Estyniad i'r cyllid ar gyfer Prosiect Cydweithio AB/AU o fis Awst 2020 tan fis Rhagfyr 2020, i alluogi gwaith pellach ar y prosiect, fel a ganlyn:
- DPP ar-lein i staff FEC a chyflogeion y cwmni
- Rhaglenni ar-lein i fyfyrwyr Addysg Bellach am bontio i Addysg Uwch neu Brentisiaethau Gradd
- Rhaglen Sgiliau'r Dyfodol ar gyfer ymweliadau rhithwyr i fyfyrwyr â phrifysgolion Cymru a chwmnïoedd rhanbarthol er mwyn i fyfyrwyr ddysgu am y cyfleoedd ym maes Addysg Uwch sy'n gysylltiedig â sgiliau y mae galw mawr amdanynt yng Nghymru a'r rhanbarth.
- Trosglwyddo Technoleg ac Arloesedd gyda chwmnïoedd rhanbarthol
- Astudiaethau achos ar y gweithgareddau uchod, gydag adroddiad diwedd y prosiect.

**Cymorth RWIF ar gyfer datblygu Prentisiaethau Gradd (Cefnogi adfywio economaidd rhanbarthol)**

Swydd newydd Swyddog Ymgysylltu â Busnes, a gyllidir am flwyddyn yn y lle cyntaf.
Rhoi hwb i ddatblygiad a sgiliau'r gweithlu drwy DPP, Dysgu yn Seiliedig ar Waith a datblygiad Prentisiaethau Uwch a Gradd (DA).
Ar hyn o bryd, mae gwaith datblygu Prentisiaethau Gradd wedi'u hariannu yng Nghymru ym maes Peirianneg a Chyfrifiadureg, ond rydym yn rhagweld y gallai fod cyllid ar gyfer Prentisiaethau Gradd ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gefnogi'r sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol, o ganlyniad i Covid-19.
Bydd y swydd newydd yn cael ei lleoli o fewn rhaglen DA lwyddiannus bresennol i ennill profiad o arfer llwyddiannus, a bydd yn gweithio ym meysydd Rheolaeth, Peirianneg, Cyfrifiadureg ac efallai Iechyd, i ymgysylltu â chwmnïoedd a chefnogi recriwtio i Brentisiaethau Gradd a Dysgu yn Seiliedig ar Waith. Ymagwedd gost-

effeithiol yw hon gan ein bod ni wedi canfod yn aml bod angen hyfforddiant ar gwmnïoedd ar draws ystod o ddisgyblaethau.

- **Treftadaeth Gyhoeddus ac Adfywio RWIF** (Cynyddu graddfa, cwmpas a chyrhaeddiad ein gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd)

Datblygwyd ymchwil i dreftadaeth gyhoeddus ac adfywio cymunedol Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau yng Ngweithfeydd Copr yr Hafod Morfa (MHC) mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys CADW, Cyngor Abertawe, cwmnïoedd lleol a gwirfoddolwyr lleol. Derbyniwyd cymorth gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC), Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Llywodraeth Cymru ers 2012.
Bellach, ein bwriad ni yw datblygu cysylltiadau ymhellach â'r cyrff treftadaeth statudol yn seiliedig ar ragoriaeth ein hymchwil, i ennill cydnabyddiaeth fel **Canolfan Sgiliau Treftadaeth Ddiwydiannol a Chadwraeth Adeiladau Cymru.** Bydd hyn yn cynnwys datblygiad pellach casgliad o gyrsiau datblygiad proffesiynol; set o gyrsiau sgiliau treftadaeth wedi'u darparu gan Goleg Gŵyr; datblygu cwricwlwm a phrosiect ysgol gyda'r holl ysgolion yng nghlwstwr Pentrehafod; a chyfres o brosiectau gwirfoddoli cymunedol yn nwyrain Abertawe.

Yn ogystal, bydd y prosiect hwn yn ein galluogi ni i uwchraddio ein gwaith gyda Chyngor Abertawe a phartneriaid eraill i sicrhau y caiff y gwaith ar Weithfeydd Copr yr Hafod Morfa ei gwblhau i'w wneud yn **'safle tirnod ar gyfer treftadaeth, dysgu, arloesi ac ymgysylltiad cymunedol, ag enw rhyngwladol (datganiad gweledigaeth Gweithfeydd Copr yr Hafod Morfa, 2014).** Bydd hyn yn cynnwys datblygu’r tai injân rhestredig mewnol, cloddio gan wirfoddolwyr a denu cyfleoedd masnachol/twristiaeth treftadaeth pellach, yn dilyn datblygiad presennol y ganolfan i ymwelwyr a lleoliad Distyllfa Penderyn.

Byddwn hefyd yn cymhwyso ymagweddau amlddisgyblaethol CoAH sydd wedi profi i fod yn llwyddiannus yng Ngweithfeydd Copr yr Hafod Morfa i ddatblygu ymchwil ac adfywio cymunedol yn seiliedig ar le mewn prif safleoedd treftadaeth ranbarthol eraill, gyda phrif ffocws cychwynnol ar Weithfeydd Haearn Abaty Nedd. Bydd y gallu ymarferol i ymgymryd ag ymchwil wedi'i hehangu yn ein galluogi ni i olrhain amrywiaeth o gyfleoedd cyllido. Yn benodol, rydym ni'n dymuno datblygu llwyddiant ein prosiect Gweithfeydd Copr yr Hafod Morfa ymhellach yn y cam cyntaf rhaglen yr UKRI EPPE – un o ddau brosiect yn unig yng Nghymru – i ddangos gallu ehangach i ymgysylltu â'r cyhoedd a gwneud ceisiadau llwyddiannus ar gyfer cyllid mwy yng ngham 2.

Byddai cyllid RWIF yn sicrhau cyflawniad optimaidd gweithgareddau dilynol prosiect Ymgysylltu â'r Cyhoedd yr UKRI a fyddai'n canolbwyntio ar ehangu gwaith prosiect penodol yn ogystal â gweithio gydag ysgolion lleol ar ddatblygu cwricwlwm hir dymor a fyddai'n gwreiddio hanes a threftadaeth y rhanbarth yn narpariaeth cwricwlwm CA2 a CA3. Yn y broses, byddwn yn ehangu ein rhaglen ymgysylltu ag ysgolion cynradd i gynnwys ysgolion clwstwr Pentrehafod: sef ysgolion cynradd Brynhyfryd, Clwyd, Cwmbwrla, Gwyrosydd, Yr Hafod, Trefansel, Plasmarl a Waun Wen.

Byddwn ni hefyd yn gallu ymateb i ddiddordeb Coleg Gŵyr mewn datblygu rhaglen fwy pendant o gyrsiau hyfforddiant sy'n seiliedig ar gadwraeth ar safle Gweithfeydd Copr yr Hafod Morfa. Yn ogystal, hoffem ni allu datblygu gwaith pellach gyda grwpiau gwirfoddol, gyda ffocws ar ddatblygu prosiect treftadaeth ddiwylliannol yn nwyrain Abertawe o amgylch Mynydd Cilfái, gan weithio o ganolfan gymunedol yng nghors Crymlyn, i wasanaethu'r cymunedau lleol yno.

Yn olaf, hoffem allu datblygu cysylltiadau ag elusennau digartrefedd, Wallich a Shelter, i ddatblygu dysgu sy’n seiliedig ar waith a phrofiadau gweithio gydag oedolion difreintiedig ac ifanc. Bydd y gweithgareddau hyn, at ei gilydd, yn ein galluogi ni i gyflwyno fframwaith sefydliadol o ymgysylltu â’r cyhoedd ar raddfa fwy gydag ysgolion, colegau a grwpiau cymunedol a fyddai'n ein rhoi ni yn y sefyllfa orau bosib i wneud cais am brosiect 'cam 2'. Byddwn yn ceisio gwella ein rôl wrth ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o arbenigedd treftadaeth, wedi'i wreiddio ar egwyddorion ac arferion creu lleoedd cymunedol, sgiliau cadwraeth ac adeiladau, a datblygu cwricwlwm ysgol, cyrsiau Addysg Bellach a chyrsiau DPP.

**5.1 Rhowch fanylion am DPA strategol eich sefydliad ar gyfer cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd**

- Arwain Lle drwy gynyddu graddfa, cwmpas a chyrhaeddiad ein gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd
- Cefnogi adfywio economaidd drwy ddatblygu arloesi a sgiliau drwy bartneriaethau â busnesau, Addysg Uwch/Addysg Bellach, gan gynyddu'r ymgysylltiad â busnes gyda Phrentisiaethau Gradd a Dysgu yn Seiliedig ar Waith a thrwy gynyddu nifer y diwrnodau dysgu ar gyfer DPP/CE.
- Cyfrannu at gynyddu safonau ysgol drwy gynyddu gweithgareddau allgymorth ag ysgolion
- Datblygu dinasyddiaeth weithgar drwy gyfranogiad cymunedol mewn ymchwil a gweithredu fel peiriant menter ac arloesi cymdeithasol

Yn ogystal, byddwn yn datblygu adnoddau "Allgymorth Ar-lein" mewn ymateb i bandemig Covid-19, wrth sicrhau y caiff yr adnoddau newydd eu defnyddio o hyd ar ôl y pandemig.

**<u>Targedau ar gyfer prosiectau RWIF/ICDF</u>**

**Allgymorth Ar-lein yr ICDF**

Creu 1 porth/tudalen we gyda dolenni i'r holl gyfleoedd ar-lein ym Mhrifysgol Abertawe

Hyrwyddo cysylltiadau drwy RLSP, Partneriaeth Sgiliau Abertawe, Fforwm Cyflogwyr Mawr Abertawe, Gofalwyr Cymru, partneriaid Addysg Bellach, Gweithffyrdd a Chanolfan Byd Gwaith.

10 cyfle allgymorth ar-lein newydd – rheoli'r broses gwneud cais a sicrhau y caiff rhaglenni eu cyflawni

**Cydweithio â Busnes/Addysg Uwch/Addysg Bellach yr ICDF**

Gweithio gyda 5 coleg Addysg Bellach i ddatblygu ymweliadau rhithwir i fyfyrwyr Addysg Bellach â sefydliadau Addysg Uwch neu gwmnïoedd Cymru, gan gysylltu'r sgiliau y mae eu hangen yn y rhanbarth â lle i'w dysgu.

| |
|---|
| 4 sesiwn DPP ar-lein i staff Addysg Bellach/Uwch neu gwmnïoedd yng Nghymru ar gyfer 50 o gyfranogwyr<br>10 cwrs rhagflas ar-lein ar gyfer myfyrwyr y dyfodol<br>Pum gweithgaredd sy'n cynnwys cwmnïoedd lleol. Bydd gweithgareddau naill ai yn cynnwys hyfforddiant DPP gyda throsglwyddo technoleg, neu drosglwyddo gwybodaeth a sgiliau i fyfyrwyr Addysg Bellach ar gyfer Rhaglen Sgiliau'r Dyfodol i fyfyrwyr Lefel 3.<br>Adroddiad gyda'r tair astudiaeth achos yn seiliedig ar yr uchod.<br><br>**RWIF Cefnogaeth Ymgysylltu â Busnes i Brentisiaethau Gradd/Dysgu yn Seiliedig ar Waith (swydd un flwyddyn)**<br>Cysylltu â thua 1,000 o gwmnïoedd yr RLSP a Sefydliadau Busnes i gynnig gwybodaeth am gyfleoedd Prentisiaethau Gradd/Dysgu yn Seiliedig ar Waith ym Mhrifysgol Abertawe a chymorth Cyfrifiadura, Peirianneg a Busnes i recriwtio<br>Gweithio gyda Choleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd i ddatblygu gweithgareddau ymgysylltu â busnesau i gefnogi datblygiad y rhaglenni Iechyd a Gofal Cymdeithasol newydd<br>Darparu dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi i 50 o gwmnïoedd<br><br>**RWIF Treftadaeth Gyhoeddus ac Adfywio**<br>Allgymorth mewn ysgolion<br>Blwyddyn 1, 1,350 o ddiwrnodau i ddysgwyr, blynyddoedd 2 a 3 tua 2,000 o ddiwrnod i ddysgwyr<br>Cydweithio â Choleg Gŵyr Abertawe<br>3 chwrs Adeiladu a Threftadaeth Addysg Bellach, 675 o ddiwrnodau i ddysgwyr<br><br>Ymgysylltu â'r gymuned (Wallich, Shelter) 225 o ddiwrnodau i ddysgwyr<br>Chwe chwrs DPP masnachol<br>Blwyddyn 1 – 36 o ddiwrnodau i ddysgwyr, blwyddyn 2 – 54 o ddiwrnodau i ddysgwyr, blwyddyn 3 – 81 o ddiwrnodau i ddysgwyr. |
| **5.2 Sut bydd eich ymagwedd strategol yn y maes hwn yn alinio ag <u>Ymchwil ac Arloesi</u>: <u>Gweledigaeth Cymru</u> CCAUC? Dewiswch y pileri i'w cefnogi:** |
| R Rhagoriaeth<br>R Lleoliad<br>R Arloesedd<br>R Cydweithio |
| **5.3 Sut mae eich uchelgeisiau strategol ar gyfer cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn cefnogi nodau, cerrig milltir ac uchelgeisiau'r weledigaeth?** |
| [uchafswm o 250 o eiriau]<br><br>Mae'r prosiect RWIF i gefnogi datblygu sgiliau i gwmnïoedd drwy Brentisiaethau Gradd a Dysgu yn Seiliedig ar Waith wedi newid darpariaeth y Brifysgol ar gyfer sgiliau a diwydiant. Mae llwyddiant y rhaglenni hyn yn seiliedig ar **ragoriaeth** |

**ymchwil** yn y meysydd hyn y mae'r sectorau diwydiant yn awyddus i gael budd ohonynt. Mae diweddaru’r sgiliau yn bwysig o ran **lle** oherwydd yr angen am adfywio economaidd yn y rhanbarth ac rydym yn rhagweld y bydd galw cynyddol am y rhaglenni hyn ar ôl y pandemig. Mae dylunio a chyflwyno'r rhaglenni hyn yn **arloesol** ac mae ymgysylltu â chwmnïoedd yn sicrhau bod y rhaglenni'n berthnasol i gyflogwyr. Bydd y prosiect yn hyblyg wrth ymateb i alwadau sy'n newid, er enghraifft ym maes gofal iechyd, a bydd yn gweithio mewn **cydweithrediad** â cholegau Addysg Bellach.

Mae'r prosiect Treftadaeth Gyhoeddus ac Adfywio RWIF yn dangos **Rhagoriaeth** drwy sylfaen ymchwil o safon, timoedd amlddisgyblaethol ac effeithiau cryf ar gyfer ffyniant a lles economaidd a chymdeithasol, sy'n hanfodol ar gyfer adfywio Abertawe fel **Lle**. Mae'n gwella rôl Prifysgol Abertawe mewn cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r gymuned, gan chwarae rôl fawr mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig y DU, yn nwyrain Abertawe. Potensial cryf i ddenu cyllid Cryfder mewn Lleoedd ac UKRI, a sicrhau bod ymchwil yn cynnig buddion i addysg ar bob lefel. Mae'r prosiect yn **arloesol** wrth ddatblygu partneriaethau ag Addysg Bellach, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, gan gynnwys elusennau ar gyfer y digartref. Mae hefyd yn arloesol o ran yr ymagwedd at ymgysylltu â'r cyhoedd a chymryd rhan mewn ymchwil. Fel enghraifft o **gydweithio**, mae'r prosiect yn seiliedig ar ddatblygu partneriaethau cryf, magu ymddiriedaeth y cyhoedd a bodloni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i ddatblygu cymdeithasau sy'n gryf ac yn gynhwysol.

**Adran C: Cyd-fynd â pholisïau a blaenoriaethau**
**6. Polisi Cymru a'r DU**

*Disgrifiwch sut mae eich strategaeth RWIF yn cyd-fynd â lle perthnasol yn seiliedig ar bolisïau rhanbarthol, Cymru a'r DU megis, e.e. bargeniau dinas-ranbarth lleol/rhanbarthol Ffyniant i Bawb: Llywodraeth Cymru: cynllun gweithredu economaidd; Strategaeth Ddiwydiannol y DU; Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus; Sylfaen Prifysgol Ddinesig UPP; Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid; Gwyddoniaeth i Gymru; Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol etc.*
[uchafswm o 500 o eiriau]

Mae strategaeth Abertawe'n cyd-fynd yn naturiol â Pholisïau'r DU a Llywodraeth Cymru, gan adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan Fargen Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Drwy ei rhaglen integredig a'i phortffolio o brosiectau, mae'r Fargen yn cyflawni'n unol â Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU a Bargeniau/Strategaethau Sectorau cysylltiedig, sy'n cydnabod pwysigrwydd datblygu sefydliadau allweddol yn y rhanbarthau i ysgogi sectorau blaenoriaeth allweddol i ddatblygu clystyrau sydd eisoes yn bodoli.

Sefydlwyd Prifysgol Abertawe gan ddiwydiant, i ddiwydiant, ac mae'n parhau i gadw diwydiant wrth wraidd ei hymchwil a'i strategaeth arloesi. Rydym yn cyflawni hyn drwy ymagweddau penodol, sy'n ennill sylw a dylanwad eang:

- Mae ein model o gyd-leoli busnes ac academia – fel ar Gampws Gwyddoniaeth ac Arloesi'r Bae (a Sefydliad y Gwyddorau Bywyd) – lle mae diwydiant ac ymchwilwyr yn arloesi ar y cyd, gan alluogi cylchoedd adborth cyflym gan arwain at bontio i'r farchnad yn gyflymach.

- Mae ein model ar gyfer masnacheiddio ymchwil bellach yn cael ei ddatblygu ar raddfa fwy i gyflawni gweithgareddau masnacheiddio ledled Cymru gyfan drwy'r prosiect AgorIP. Prosiect Cymru gyfan yw hwn sy'n tynnu ar Eiddo Deallusol o academia a'r GIG, sef model sy'n canolbwyntio ar biblinell a llif cytundebau i fwyafu potensial economaidd. Mae hyn yn benodol o berthnasol wrth fynd i'r afael â'n hymateb presennol i Covid-19.

Mae'r ymagweddau hyn wedi bod yn sail i gefnogaeth y Brifysgol ar gyfer Bargen Ddinesig Rhanbarth Bae Abertawe, sydd wedi bod yn llwyddiannus wrth ddenu £1.3 biliwn i'r rhanbarth drwy ddefnyddio pŵer buddsoddiad y sector cyhoeddus ar gyfer creu galw am dechnolegau newydd ac arloesedd ym maes adeiladau fel gorsafoedd pŵer, Gwyddoniaeth Ddur, Gwely Profi Rhyngrwyd 5G, Iechyd a Lles, Ffatri'r Dyfodol a Gwasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf, er enghraifft. Bydd buddsoddiad ac aliniad â'n strategaeth 3 blynedd o'r fath yn helpu i gynyddu swyddi tra medrus, cyfleoedd busnes, a mentergarwch gyflymu, sy'n gymorth mawr ei angen er mwyn cefnogi'r rhanbarth, er mwyn gwneud Abertawe yn ardal fwy deniadol ar gyfer busnesau newydd myfyrwyr/graddedigion, cadw graddedigion medrus yn yr ardal ynghyd â denu mwy o fyfyrwyr i astudio yn Abertawe

Ar lefel ranbarthol, bydd Prifysgol Abertawe yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i alinio gweledigaeth ein strategaeth ddiwydiannol â dyheadau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygiad ac arloesedd economaidd. Mae hyn yn arbennig o bwysig o gofio dibynadwyedd sylweddol ar gyllid strwythurol yr UE yng Nghymru i gefnogi agenda arloesi.

Gan gyd-fynd â Chynllun Gweithredu Economaidd Ffyniant i Bawb Llywodraeth Cymru, byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â chyflogwyr a cholegau addysg bellach drwy Bartneriaeth Sgiliau Prifysgol Coleg (CUSP) i gyflawni cyrsiau arloesi a gweithgareddau allgyrsiol sy'n diwallu'r angen am sgiliau lefel uwch gyda ffocws penodol ar ddatrys y diffyg sgiliau mewn sectorau blaenoriaeth sy'n dibynnu ar STEMM, rheolaeth a phynciau sy'n gysylltiedig ag iechyd.

Yng nghyd-destun strategol ehangach Cymru, rydym yn hollol ymrwymedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 Llywodraeth Cymru a'r Cynllun "Creu Sbarc" sy'n annog entrepreneuriaeth wedi'i hysgogi gan arloesi.

Mae Prifysgol Abertawe wedi ymrwymo'n llawn i Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru, gan gydnabod ei bod yn fframwaith hynod effeithiol ar gyfer cefnogi a hyrwyddo mentergarwch yn y Brifysgol a chyda rhanddeiliaid allanol yn lleol ac yn genedlaethol.

Mewn byd sy'n newid, pwysleisiwyd yr angen a'r galw am entrepreneuriaeth, a myfyrwyr entrepreneuraidd yn benodol, fel gofyniad sylfaenol ar gyfer datblygiad a thwf yn ddiweddar mewn wyth dogfen llywodraeth a pholisi ar wahân, gan gynnwys "Ffyniant i Bawb" 1 (EAP) Llywodraeth Cymru, Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU, ymgynghoriad Canlyniadau Graddedigion ac Adolygiad Diamond.

Meddai'r Arglwydd Kerslake, Cadeirydd Comisiwn Prifysgol Ddinesig Sefydliad yr UPP: "Mae pwysigrwydd dysgu gydol oes a datblygu sgiliau newydd yn teimlo'n bwysicach nag erioed." Bydd darparu cyfleoedd i oedolion gamu i Addysgu Uwch, neu ddychwelyd ati, yn canolbwyntio ar y rhai hynny sydd wedi colli eu swyddi o ganlyniad i bandemig Covid-19, er mwyn eu galluogi nhw i fagu sgiliau newydd neu newid gyrfa i sicrhau math arall o gyflogaeth. Byddwn yn cynnig mynediad i oedolion drwy ein rhaglenni sylfaen drwy ein polisi derbyn cyd-destunol, fel ymateb i anghenion ôl-bandemig a nodwyd ar gyfer ein rhanbarth ni.

## 7. Bodloni gofynion Concordat Cyfnewid Gwybodaeth y DU

*Rhaid i sefydliadau yng Nghymru ddangos eu bod yn ymrwymo i gyd-fynd ag egwyddorion Concordat Cyfnewid Gwybodaeth y DU drwy eu strategaethau RWIF. Cynhelir cam datblygu yn ystod 2020-21 i roi model Cymreig ar waith.*

*Ar gyfer y cam cychwynnol hwn, rydym yn gofyn i sefydliadau gadarnhau, drwy eu strategaethau, eu bod yn ymwybodol o egwyddorion y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth a amlinellwyd fel rhan o'r ymgynghoriad cychwynnol, a'u bod yn ymrwymedig i alinio drwy'r model ymgysylltu Cymreig. Gellir cyflwyno strategaethau RWIF wedi'u hadolygu yn flynyddol fel rhan o'r weithdrefn fonitro, a chaiff y broses hon ei defnyddio i ddangos ymrwymiad llawn i'r Concordat Cyfnewid Gwybodaeth yn y flwyddyn ddatblygu ganlynol.*

[500 o eiriau]

Mae Prifysgol Abertawe yn gwbl ymrwymedig i'r Concordat Cyfnewid Gwybodaeth i helpu i ymateb i'r heriau a osodwyd gan Strategaeth Ddiwydiannol y Llywodraeth a'r targed Ymchwil a Datblygu o 2.4%. Byddwn yn dangos ein cryfderau a'n llwyddiannau amrywiol wrth weithio gyda phartneriaid busnes a chymuned i greu effaith economaidd a chymdeithasol go iawn, gan anelu at ddadansoddi ein perfformiad cymharol yn erbyn rhestr o sefydliadau grwpiau clwstwr priodol i feincnodi ein perfformiad a'n ffocws ar welliannau yn y dyfodol.

Drwy ehangu a datblygu ein rôl a datblygu arferion sy'n berthnasol i'n cryfderau, byddwn yn parhau i gynnig arloesedd, arweinyddiaeth a chymorth o safon i amrywiaeth eang o weithgareddau Cyfnewid Gwybodaeth, fel a amlinellwyd yn ein strategaeth, a fydd yn gwella'r cymunedau a'r sefydliadau rydym ni'n gweithio gyda nhw.

Mae ein strategaeth a'n hymagwedd sefydliadol 3 blynedd yn cefnogi'r wyth egwyddor arweiniol a'r arferion gorau sy'n sail i berfformiad uchel, fel a ddarparwyd gan y Concordat.

(1) **Cenhadaeth –** Mae Cyfnewid Gwybodaeth yn rhan o'n cynllun strategol sefydliadol

(2) **Polisïau a Phrosesau** – Mae gennym nifer o bolisïau ar waith i gefnogi Cefnogi Gwybodaeth, gan gynnwys polisïau a gweithdrefnau Eiddo Deallusol a Masnacheiddio

(3) **Ymgysylltu** – Mae ein cynnig yn cynnwys dull ymgysylltu a rhaeadru clir. Yn ogystal, rydym ni wedi datblygu rhwydwaith sy'n edrych tuag allan o'r enw "LINC Abertawe", fforwm ymgysylltu â busnes mewnol a system CRM i ddenu a rheoli gweithgareddau ymgysylltu allanol. Mae Prifysgol Abertawe wedi datblygu adran newydd o'n system Rheoli Perthnasoedd â Chwsmeriaid (CRM) ac yn ei pheilota. Lluniwyd yr adran newydd hon i gasglu ynghyd yr holl weithgareddau cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Bydd hyn yn ein galluogi ni i fapio, gwerthuso a blaenoriaethu yn gywir ein gweithgareddau cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Cafodd y CRM newydd ar gyfer Ymgysylltu ei harddangos mewn cynhadledd yn ddiweddar ar gyfer holl sefydliadau Addysg Uwch Cymru, a denodd diddordeb mawr.

(4) **Gweithio mewn ffordd dryloyw a moesegol** – Rydym yn sicrhau bod ein partneriaid a'n buddiolwyr yn deall amgylcheddau rheoleiddio moesegol ac elusennol y sefydliad lle maent yn gweithredu.

(5) **Cyn**yddu Gallu Ymarferol – Bydd ein cynnig ni yn sicrhau bod ein staff, ein myfyrwyr a'n hymchwilwyr oll yn gallu cyfrannu at weithgareddau Cyfnewid Gwybodaeth ac elwa ohonynt, yn ogystal â bod yn gymwys i ddeall ac ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau wrth Gyfnewid Gwybodaeth yn llwyddiannus.

(6) **Cydnabyddiaeth a Dyfarniadau –** Rydym yn cydnabod cyflawniadau staff a myfyrwyr sy'n cyflawni gweithgareddau Cyfnewid Gwybodaeth o safon drwy adolygiadau datblygiad personol, dilyniant gyrfa, llwybr gyrfa academaidd arloesi ac ymgysylltu a'n Gwobrau Ymchwil ac Arloesi breintiedig.

(7) **Gwelliant parhaus** – Rydym yn ymdrechu'n rhagweithiol i rannu arfer gorau gyda'n cymheiriaid ac mae gennym brosesau sefydledig ar gyfer dysgu o hyn

(8) **Gwerthuso llwyddiant** – Byddwn yn ymgymryd ag adolygiad ar sut y mae ein strategaeth wedi effeithio ar Gyfnewid Gwybodaeth i lywio datblygiad rhaglen o welliant parhaus a'i rhoi ar waith. Bob blwyddyn, mae Abertawe yn asesu ei pherfformiad mewn cyflwyniad HE-BCI yn erbyn sefydliadau eraill yng Nghymru lle mae ymdrech i wella perfformiad mewn ardaloedd wedi'u tangynrychioli. Eleni, rydym wedi ymgymryd ag adolygiad sylweddol o'n gweithgareddau a'n prosesau DPP, sydd wedi gwella perfformiad. Rydym ni hefyd wedi datblygu strategaeth 5 mlynedd weithredol i wella ein piblinell KTP, a ddylai ddangos gwelliant dros y misoedd i ddod.

Byddwn yn hyrwyddo llawer o ffurfiau gwahanol ar Gyfnewid Gwybodaeth a phartneriaethau busnes sy'n ffynnu yn Abertawe, mewn sector Addysg Uwch sy'n gynyddol amrywiol.

**8. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**

*Rhowch wybodaeth benodol am sut y bydd y strategaeth RWIF yn cefnogi saith nod a phum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015*;
[uchafswm o 250 o eiriau]

Mae Ymchwil ac Arloesi yn Abertawe yn ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan wneud cyfraniad hanfodol at yr economi wrth hefyd wella lles cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n newid bywydau ac mae'n cyd-fynd â Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig.

Drwy ein strategaeth, rydym yn mynd i'r afael â'r saith nod lles (drwy dwf economaidd), gwydnwch (drwy ystod gadarn ac amrywiol o gynnyrch mewn amrywiaeth o farchnadoedd a mentrau byd-eang), cydraddoldeb (drwy greu cyfoeth ar draws grwpiau cymdeithasol-economaidd); iechyd (drwy ddatblygu technolegau newydd e.g.) Deallusrwydd Artiffisial i helpu gydag unigrwydd, banc rhoddwyr llaeth, diagnosteg Pwynt Gofal); Cydlynoldeb (e.e. mae CS-Connected wedi integreiddio'r holl ddiwydiant lled-ddargludyddion a sefydliadau Addysg Uwch yn ne Cymru, ac mae bellach yn cysylltu ag ysgolion a'r cyhoedd); diwylliant ac iaith fywiog (drwy ein mentrau Iaith Gymraeg lleol); a chyfrifoldeb Byd-eang (drwy brosiectau yn nyfeisiau ynni-effeithlon, dur, diogeledd, ac iechyd a deallusrwydd artiffisial).

Mae ein strategaeth yn cynrychioli **model wedi'i integreiddio, hir dymor**, gydag agenda gymunedol wedi'i seilio ar ddiwydiant wedi'i chefnogi gan arloesedd, Ymchwil a Datblygu **cydweithredol**, Trosglwyddo Gwybodaeth sy'n **cynnwys** yr holl sectorau a helpu'r sector cyhoeddus a'r llywodraeth i **atal** problemau, gan gynnwys y defnydd o dechnolegau clyfar.

Drwy ein hymagwedd strategol, mae Abertawe yn dymuno defnyddio ei hymchwil a'i harloesedd i helpu staff a graddedigion i godi lefelau cynhyrchiant, adeiladu economi gryfach a mwy gwydn, annog mentergarwch a sicrhau lles cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Brifysgol yn parhau i ddatblygu ein partneriaethau â sefydliadau rhanbarthol fel y gallwn wella lles pobl y ddinas, y rhanbarth a'r gymdeithas ehangach yn effeithiol. Fel prifysgol arloesol ac entrepreneuraidd, rydym yn cefnogi Dinas Ddysg UNESCO Abertawe (dan arweiniad Dinas a Sir Abertawe) i ddatblygu diwylliant ac ecosystem entrepreneuraidd, datblygu'r economi ranbarthol ac ehangu arloesi a mentergarwch cymdeithasol.

Mae cenhadaeth ddinesig Prifysgol Abertawe yn cyfeirio at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn cyd-fynd â hi. Mae'r genhadaeth yn adleisio, yn atgyfnerthu ac yn ailysgogi cenhadaeth wreiddiol yn seiliedig ar le y Brifysgol, gan ei rhoi mewn cyd-destun modern, gan gynnwys ein hymateb i bandemig Covid-19.

**9. Effaith ar y Gymraeg**

*Rhowch amlinelliad o'r effaith gadarnhaol y bydd buddsoddiad RWIF yn ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio a chefnogi'r Gymraeg. Pan fydd yn briodol, efallai y byddwch chi am gyfeirio at themâu yn y Cynllun Gweithredu Cymraeg 2050.*
[uchafswm o 250 o eiriau]

Yn Abertawe, rydym yn gwbl ymrwymedig i gefnogi, hyrwyddo a chyfoethogi diwylliant Cymraeg a Chymreig mewn ffordd ragweithiol, gan gynnig amgylchedd gweithio a dysgu cynhwysol a chefnogol i bawb.

Rydym yn cynnig cyfleoedd i bob aelod o'r Brifysgol sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg i wneud hynny a chryfhau delwedd y Brifysgol yng Nghymru fel sefydliad dwyieithog.

Mae Cynllun yr Iaith Gymraeg wrth wraidd uchelgais y Brifysgol i fod yn sefydliad cwbl ddwyieithog. Mae ein holl ddeunyddiau (ar-lein a chopïau caled) yn ddwyieithog. Un o nodau strategol 2020 Prifysgol Abertawe yw gwella'r diwylliant o ddwyieithrwydd yn y Brifysgol a hyrwyddo Cynllun yr Iaith Gymraeg. Mae'r Cynllun yn amlinellu sut y byddwn yn ymgymryd â'r uchelgais hwn, gan roi manylion ar gynlluniau, polisïau, targedau a dulliau o fonitro cynnydd.

Mae'r Cynllun yn adlewyrchu ymrwymiad cynyddol y Brifysgol i'r Gymraeg, sut mae'n annog ei defnydd ac yn hyrwyddo cyfleoedd i ni ei defnyddio. Mae'r Brifysgol hefyd yn ymrwymedig i hyrwyddo defnydd o'r gwasanaethau iaith mae'n eu cynnig. Mae Cynllun yr Iaith Gymraeg yn dangos yr un ymrwymiad drwy gynnig gwasanaethau dwyieithog o safon i aelodau o'r cyhoedd sy'n dod i gyswllt â'r Brifysgol. Drwy drin y Gymraeg a'r Saesneg 'ar sail cydraddoldeb', mae'r Brifysgol yn parhau i sicrhau bod gan y cyhoedd y dewis i gyfathrebu gyda'r Brifysgol yn y Gymraeg neu'r Saesneg a derbyn gwasanaeth yn eu hiaith ddewisol.

Drwy ein strategaeth gyflawni, byddwn yn ceisio datblygu cynifer o adnoddau a gweithgareddau Cyfnewid Gwybodaeth â phosib, a chylchredeg gwybodaeth i gymunedau a rhanddeiliaid, yn ddwyieithog, gan gynnwys hyfforddiant DPP, seminarau, gweithdai a'r cyfryngau cymdeithasol.

Yn ogystal, byddwn hefyd yn dilyn nod y cynllun gweithredu Cymraeg 2050 drwy arwain drwy esiampl a mabwysiadu diwylliant y Gymraeg a sicrhau y caiff y rhain eu cynnwys yn ein gwaith cydweithredol â phartneriaid rhyngwladol lle bo hynny'n bosib ac yn briodol.

Ceir rhagor o fanylion am Bolisi Iaith Gymraeg y Brifysgol yn:
http://www.swansea.ac.uk/media/Swansea%20University%20Welsh%20Language%20Scheme.pdf


**Adran Ch: cymorth ariannol**
**10. Defnyddio Cyllid Arloesi Ymchwil Cymru**

*Sut mae eich cyfraniad RWIF yn 2020/21 yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r strategaeth a amlinellwyd yn Adran B, a beth ydych chi'n disgwyl y bydd eich blaenoriaethau ar gyfer y defnydd o gyllid RWIF yn y blynyddoedd i ddod?*
[uchafswm o 250 o eiriau – neu atodwch dabl sy'n amlinellu'r meysydd buddsoddi eang]

Rydym wedi dyfarnu cyllid ar gyfer pob thema yn seiliedig ar gyfuniad o bwysoliad y grant i ysgogi a gwobrwyo, ynghyd â blaenoriaethau strategol Abertawe.

| ICDF a RWIF (2019/21) £2,424,335 | DYRANIAD (£) | MANYLION |
|---|---|---|
| **CYNYDDU GALLU YMARFEROL** | 250,000 | I'n helpu i gynnig sefydlogrwydd ac ategu adnoddau presennol yn REIS yn ogystal â gallu cynyddol er mwyn bodloni uchelgeisiau strategol. |
| **THEMA1- GWEITHGAREDD YN SEILIEDIG AR FASNACHEIDDIO (62%)** | 1,329,439 | £859K wedi'u targedu at fentrau blaenoriaeth sector a strategol<br>£340K wedi'i fuddsoddi mewn paratoi a chynyddu lefel/gwerth Cyfnewid Gwybodaeth, ymgysylltiad busnes rhanbarthol a rhyngwladol a denu incwm.<br>£130K i ddatblygu ein datblygiad rhwydwaith a chynyddu ein henw da rhyngwladol |
| **THEMA2 – TWF A CHYMORTH I FUSNESAU NEWYDD (20%)** | 446,000 | £250K i greu amgylchedd entrepreneuraidd a dysgu gwell ar draws y Brifysgol i staff a myfyrwyr<br>£186K i ddatblygu rhaglenni entrepreneuriaeth myfyrwyr newydd, cymorth deori a chronfa buddsoddi i raddedigion<br>£10K i gefnogi ein strategaeth Eiddo Deallusol a Masnacheiddio |
| **THEMA 3- CENHADAETH DDINESIG AC YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD (18%)** | 398,896 | £153K i gefnogi Treftadaeth Gyhoeddus ac Adfywio Cymunedol<br>£58K i gefnogi Prentisiaethau Gradd<br>£123K i gefnogi gweithgareddau cenhadaeth ddinesig<br>£63K i gefnogi cydweithrediadau Busnes/AU/AB |

Byddwn yn adolygu perfformiad yn erbyn canlyniadau rhagweledig er mwyn sicrhau bod y gronfa'n cefnogi ein huchelgeisiau strategol ac yn gwobrwyo ac yn cydnabod perfformiad da.

| **Adran D:**<br>**Gofynion Rheoleiddio**<br>*DS: Efallai y bydd CCAUC yn gofyn am wybodaeth/eglurhad pellach am unrhyw un o'r meysydd hyn* | |
|---|---|
| i) Safonau'r Gymraeg (2018)<br>*[Defnyddiwch y gwymplen]* | This strategy complies with Welsh Language Standards 2018 |
| ii) Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb<br>*[Defnyddiwch y gwymplen]* | This strategy has been Equality Impact Assessed |
| iii) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)<br>*[Defnyddiwch y gwymplen]* | This strategy will contribute towards the aims of the WFG Act 2015 |
| **Llofnod:**<br>**Is-ganghellor** |  |
| **Dyddiad** | 11/08/2020 |